



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad
a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru



Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r cod hwn yn diddymu'r cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016.

Pennod / Cynnwys

1. Cyflwynaid	3
2. Y Weledigaeth	4
3. Diben	5
4. Y Safonau Ansawdd	8
5. Framwaith Perfformiad a Gwella	12
6. Llesiant	14
7. Gwelliant Strategol	16
8. Atebolrwydd	17
9. Canllawiau Perthnasol	18

Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru

1. Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddir y cod ymarfer hwn o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1.2 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gael yn:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/enacted>

1.3 Mae'r cod ymarfer hwn yn diddymu'r cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016.

1.4 Dylid darllen y cod ar y cyd â'r holl godau ymarfer perthnasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1.5 Wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, rhaid i awdurdodau lleol weithredu yn unol â'r gofynion yn y cod hwn. Nid yw adran 147 (Gwyo oddi wrth ofynion mewn codau) yn berthnasol i unrhyw ofynion yn y cod hwn.

1.6 Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a amlinellir yma. Yn y cod ymarfer hwn, mae gofyniad yn cael ei fynegi fel "rhaid" neu "rhaid peidio". Mae canllawiau'n cael eu mynegi fel "gall/ni all" neu "dylai/ni ddylai".

1.7 Mae'r cod ymarfer hwn yn berthnasol i awdurdodau lleol yn unig mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1.8 Dylai cyrff partneriaeth dalu sylw i'r cod ymarfer hwn a'i ddefnyddio i ddeall sut y mae eu gwaith yn hwyluso gwelliant mewn gofal cymdeithasol, yn benodol wrth gydweithio ag awdurdodau lleol neu gyfrannu at ganlyniadau llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth neu ofalwyr sydd angen cymorth.

1.9 Datblygwyd y cod diwygiedig hwn yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol a thrwy gydweithredu ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill ar draws Cymru. Mae'r cod newydd yn amlinellu'r gofynion perfformiad a gwella ar gyfer awdurdodau lleol o ran Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn sefydlu set ddiwygiedig o safonau ansawdd y mae'n rhaid i bob awdurdod lleol anelu i'w cyrraedd. Mae'r cod wedi'i gryfhau i sicrhau bod perfformiad a gwelliant yn gyfartal o ran y gefnogaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Gwnaed y fframwaith perfformiad a gwella yn fwy hyblyg hefyd trwy gyhoeddi'r holl ofynion data mewn canllawiau ar wahân i alluogi awdurdodau lleol i gasglu ystod ehangach o ddata.

2. Y Weledigaeth

2.1 Mae'r cod ymarfer hwn yn nodi sut y bydd gwelliannau mewn gwasanaethau ac ar gyfer unigolion yn cael eu cefnogi, eu mesur, a'u cynnal gan awdurdodau lleol. Trwy weithredu'r cod ymarfer hwn yn effeithiol, a thrwy ddefnyddio'r ystod eang o ddulliau a nodwyd yn y fframwaith perfformiad a gwella, bydd Cymru yn gallu datblygu'n genedl gyfoethog o ran data lle bydd data a thystiolaeth yn cael eu defnyddio fel mater o drefn i lywio penderfyniadau polisi a gwella canlyniadau.

2.2 Mae gan Gymru hanes o ymarfer uchelgeisiol ac arloesol wrth gefnogi pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalywyr sydd angen cymorth. Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru barhau i geisio cyflawni'r gwelliant parhaus hwn.

2.3 Mae'r dulliau a'r gofynion a nodwyd yn y cod ymarfer hwn yr un mor berthnasol i awdurdodau lleol ag i Lywodraeth Cymru. Bydd y cod ymarfer hwn yn cael ei ddefnyddio i:

- sicrhau bod awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar berfformiad a gwelliant
- amlinellu'r gwahanol fathau o ddata y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu casglu a chael mynediad atynt i lywio eu perfformiad a'u gwelliant
- codi disgwyliadau mewn perthynas ag ansawdd a chysondeb data a gesglir gan awdurdodau lleol
- sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau craidd fel y nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, y ddeddfwriaeth gysylltiedig, a'r codau ymarfer
- sicrhau bod dull clir, a ddeallir yn genedlaethol, o lywio perfformiad a gwelliant sy'n cael ei rannu rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol
- sicrhau bod awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn y sector gofal cymdeithasol yn gallu cael mynediad at ddata cyson a chymaradwy sy'n darparu tystiolaeth glir o gynnydd, yn nodi meysydd lle mae angen gwneud gwaith pellach ac yn llywio polisiau yn ddibynadwy ar lefel leol a chenedlaethol
- llywio strwythur a chynnwys Adroddiad Gwasanaethau Cymdeithasol Blynyddol Llywodraeth Leol¹ (y cyfeirir ato fel Adroddiad y Cyfarwyddwr)
- darparu dealltwriaeth o ddarpariaeth y swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol i lywio llywodraethu strategol a gwneud penderfyniadau ar lefel awdurdod cyfan.

¹Fel sy'n ofynnol o dan adran 144A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

3. Diben

3.1 Mae gan y cod ymarfer hwn sawl diben y mae'n rhaid i'r holl awdurdodau lleol wybod amdanynt a chydymffurfio â nhw. Dyma brif ddibenion y cod:

- Nodi'r safonau ansawdd
- Nodi'r fframwaith perfformiad a gwella
- Nodi'r data a'r dystiolaeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu casglu i roi tystiolaeth o'u cynnydd tuag at gyflawni'r safonau ansawdd
- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn defnyddio data a thystiolaeth yn effeithiol
- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn deall eu cyfrifoldebau ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

3.2 Bwriad y cod ymarfer hwn yw cyflawni'r nodau a ganlyn:

Ar gyfer unigolion:

- galluogi pobl i ddeall y gofal ac ansawdd y cymorth y mae ganddynt hawl i'w gael gan eu hawdurdod lleol
- galluogi pobl i ddeall sut y mae awdurdodau lleol yn cael eu mesur o ran eu darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol

Ar gyfer ymarferwyr:

- galluogi ymarferwyr i ddeall a defnyddio tystiolaeth yn effeithiol i gefnogi a gwella eu hymarfer
- sicrhau bod ymarferwyr yn gwbl ymwybodol o'u rôl o ran casglu tystiolaeth a data manwl gywir er mwyn mesur perfformiad a gwelliant yn briodol a deall yr effaith ar ganlyniadau llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth
- deall bod rhaid i ymarferwyr fod yn fedrus, yn gymwys a'u bod yn cael eu cefnogi, gan sicrhau ffocws clir ar wella

Ar gyfer awdurdodau lleol:

- galluogi awdurdodau lleol i ddeall y cyfeiriad strategol ehangach ar gyfer gofal cymdeithasol y mae'n rhaid iddynt weithio tuag ato, a'u rôl o ran cyflawni hyn
- galluogi awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar eu perfformiad – ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, ac ar lefel sefydliadol
- galluogi awdurdodau lleol i ddeall pwysigrwydd data a thystiolaeth o ran llywio eu perfformiad a'u gwelliant – yn benodol o ran eu dealltwriaeth a'r defnydd effeithiol o ddata meintiol, data ansoddol a'r defnydd o ymchwil a thystiolaeth
- galluogi awdurdodau lleol i ddeall sut y bydd Llywodraeth Cymru yn eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad o ran gwasanaethau cymdeithasol
- galluogi awdurdodau lleol i ddeall beth y maent yn ei wneud yn dda, i gydnabod a rhannu arfer gorau o fewn awdurdodau lleol a rhyngddynt ac i gydnabod beth nad ydynt yn ei wneud cystal, beth y gallent ei wneud yn wahanol a beth sydd angen ei newid
- galluogi awdurdodau lleol i rannu tystiolaeth gydag ystod eang o bartneriaid er mwyn hwyluso cydweithio a chefnogi gwell integreiddio
- sicrhau bod ymarferwyr yn fedrus, yn gymwys a'u bod yn cael eu cefnogi ac yn gallu defnyddio data a thystiolaeth yn effeithiol i lywio gwelliant
- hysbysu dealltwriaeth strategol ehangach o sut y mae'r awdurdod lleol yn gweithredu ar y cyfan, yn defnyddio ei adnoddau ac yn darparu ar gyfer pobl yr ardal.

Ar gyfer Llywodraeth Cymru:

- sicrhau bod pob awdurdod lleol yn gweithio tuag at yr un safonau uchel
- sicrhau bod ansawdd yn rhan annatod o ofal a chymorth, bod pob awdurdod lleol yn ceisio cyrraedd yr un lefel uchel o ran ansawdd a bod y tegwch i bobl o ran eu profiad o ofal a chymorth ledled Cymru
- sicrhau bod pob awdurdod lleol yn defnyddio dulliau a methodolegau tebyg i fonitro perfformiad a llywio gwelliant

- sicrhau bod modd defnyddio'r dystiolaeth a gesglir gan awdurdodau lleol i fonitro perfformiad ar lefel leol a chenedlaethol, i lywio gwelliant ar draws y sector gofal cymdeithasol ac i lunio polisiau cenedlaethol

3.3 Mae'r cod ymarfer hwn yn rhan o uchelgais ehangach ar gyfer llywodraeth leol. Mae'n ceisio gwneud newid go iawn a pharhaus i'r ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu mesur a'u hadrodd a'r ffordd mae'r wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i lywio dyfodol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Rhaid i awdurdodau lleol ddeall pwysigrwydd data a thystiolaeth a deall y manteision y gall y defnydd effeithiol a pharhaus o ddata a thystiolaeth ddibynadwy o safon uchel ei chael ar ddeall perfformiad a llywio gwelliant.

3.4 Mae'r cod ymarfer hwn, a'r safonau ansawdd a'r fframwaith perfformiad a gwella a nodwyd yn rhoi cyfarwyddyd clir i awdurdodau lleol ac i Lywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael â pherfformiad a gwelliant mewn gwasanaethau cymdeithasol ar lefel genedlaethol a lleol.

3.5 Bydd angen casglu data lleol penodol hefyd, a bydd pob awdurdod lleol yn penderfynu ar hyn yn unigol.

4. Y Safonau Ansawdd

4.1 Mae'r safonau ansawdd yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru, ar lefel genedlaethol, ynghylch ansawdd y cymorth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei ddarparu. Mae'r safonau wedi'u nodi yn y tabl isod:

Y Safonau Ansawdd			
Pobl	Atal	Partneriaethau ac Integreiddio	Llesiant
Mae pobl yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt.	Mae'r angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau ac nid yw anghenion yn cynyddu, gan sicrhau'r canlyniad gorau posibl i bobl.	Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cynaliadwy a chwbl integredig o safon uchel i bobl.	Mae pobl yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed.
Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel, gyda gweithlu cymwysedig a hynod fedrus yn cael ei gefnogi i weithio tuag at weledigaeth a rennir.	Mae cydnerthedd yn ein cymunedau yn cael ei hyrwyddo ac mae pobl yn cael eu helpu i gyrraedd eu potensial trwy annog a helpu pobl sydd angen gofal a chymorth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.	Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at gynllunio a darparu eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal.	Mae pobl yn cael eu helpu i reoli eu llesiant a gwneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain fel y gallant gyrraedd eu potensial llawn a byw'n annibynnol cyhyd â phosibl.

4.2 Y bwriad yw i'r safonau ansawdd fod yn ddyheadol, yn hytrach na bod yn rhestr wirio i'w chyflawni. Fe'u lluniwyd i herio awdurdodau lleol, i godi uchelgais ac i annog arloesedd.

4.3 Mae'r safonau'n gysylltiedig â'r saith nod llesiant a amlinellir yn Adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn gysylltiedig â'r

diffiniad o lesiant yn Adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

4.4 Nod y safonau yw sicrhau bod pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn gallu cael mynediad at y cymorth iawn ar yr amser iawn o'r lle iawn, a bod gweithwyr proffesiynol profiadol a/neu gymwys ar gael i'w ddarparu. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys:

- y cymorth a ddarperir i bobl i gael gafael ar wybodaeth a chyngor;
- y cymorth a ddarperir i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth;
- y cymorth a ddarperir i'r gweithlu gwasanaethau cymdeithasol.

4.5 Disgwylir i awdurdodau lleol ddangos eu cynnydd yn erbyn y safonau ansawdd yn flynyddol trwy Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol². Rhaid i'r dystiolaeth hon fod yn gyfuniad o'r data a'r dystiolaeth a gasglwyd trwy'r fframwaith perfformiad a gwella, ochr yn ochr ag unrhyw ddata lleol neu ymagweddau eraill y mae'r awdurdodau lleol yn eu hystyried yn briodol iddynt.

4.6 Mae'r safonau ansawdd wedi'u cynllunio fel eu bod yn cyd-fynd yn gyfan gwbl â phedair egwyddor graidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ³2014 a Chod Ymarfer Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol⁴

4.7 Ar gyfer pob egwyddor graidd, datblygwyd dau safon ansawdd. Mae'r safonau ansawdd wedi'u cynllunio i ymdrin ag oedolion, plant a gofalwyr, a'r gweithlu gofal cymdeithasol os yw hyn yn berthnasol.

Cysondeb ag Arolygiaeth Gofal Cymru

4.8 Mae pedwar pennawd y safonau ansawdd – pobl; atal; partneriaethau ac integreiddio; a llesiant - yn cyd-fynd yn fwiadol â'r penawdau a ddefnyddir yng nghod ymarfer Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol mewn awdurdodau lleol. Diben hyn yw sicrhau bod cysondeb o ran dulliau gweithredu rhwng Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru a bod awdurdodau lleol yn deall sut y mae'r cod hwn a'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol mewn awdurdodau lleol yn cyd-fynd.

4.9 Mae'n cael ei ddatblygu ymhellach drwy ddisgrifiadau cyson y pedwar pennawd. Mae'r disgrifiadau hyn wedi'u datblygu gan Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru i sicrhau bod y ddau god ymarfer yn defnyddio'r un ieithwedd.

²Fel sy'n ofynnol o dan adran 144A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

³h.y. pobl, atal, partneriaethau ac integreiddio a llesiant

⁴ <https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2019-04/190401-code-of-practice-lass-en.pdf>

4.10 Mae pedwar pennawd y safonau ansawdd a'r disgrifiadau cyffredin wedi'u nodi isod:

Pobl

4.11 Mae dull seiliedig ar hawliau yn gwneud pobl yn rhan annatod o wasanaethau a chymunedau, gan ddarparu eglurder a thryloywder ynghylch hawliau a chyfrifoldebau. Mae gan bobl lais cryf a rheolaeth dros wasanaethau a dderbyniant, gyda chytundeb ynghylch a oes angen eiriolaeth⁵ yn sail i hynny. Mae hyn yn helpu i roi ffocws ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, y canlyniadau y maent eisiau eu cyflawni a sut y gallant ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau eu hunain i hyrwyddo eu llesiant eu hunain. Mae pwysigrwydd cymryd risgiau cadarnhaol mewn ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau yn cael ei gydnabod a'i reoli'n dda. Mae ymarferwyr a rheolwyr yn sicrhau bod ymarfer a goruchwyliaeth yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf, ymarfer seiliedig ar dystiolaeth a deunyddiau perthnasol eraill, gan gynnwys deddfwriaeth, arweiniad gan y llywodraeth a dysgu o adolygiadau.

Atal

4.12 Mae arweinyddiaeth a llywodraethu cymesur a chyson yn sicrhau bod anghenion y boblogaeth yn sbarduno newid sefydliadol, gan fod awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn canolbwyntio ar ddulliau atal ar gyfer anghenion gofal a chymorth a nodir yn lleol. Mae'r ymagwedd integredig gadarnhaol at ddiwylliant o atal yn amlwg trwy gydweithredu, seilwaith cefnogol a systemau cyflenwi sy'n cyfateb i'w gilydd. Mae dull darbodus o ddyrannu adnoddau yn sicrhau bod yr help iawn ar gael ar yr amser iawn ac, ynghyd â gwasanaethau di-dor, ac mae hyn yn atal anghenion rhag cynyddu ac yn gwella ansawdd siwrnai'r unigolyn trwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gwasanaethau a chanlyniadau yn gymesur, wedi'u targedu, yn gynaliadwy ac yn cael eu cefnogi trwy hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a'r trydydd sector, sy'n adeiladu'r economi graidd leol trwy gael pobl i gyfnewid eu sgiliau a'u diddordebau. Gall gweithgarwch atal fod yn unrhyw beth sy'n helpu i ddiwallu angen a nodir, ac mae'n amrywio o fesurau eang sy'n targedu'r boblogaeth gyfan i ymyriadau unigol mwy penodol.

Partneriaeth ac integreiddio

4.13 Trwy ymddiriedaeth, ymrwymiad a rennir a chydweithrediad, mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn cyfrannu adnoddau ac yn gweithio gyda phobl leol i nodi anghenion a datblygu adroddiadau asesu poblogaeth integredig. Mae'r adroddiadau hyn yn sail i'r gwaith o lywio, comisiynu a darparu gwasanaethau cynaliadwy. Mae gwerth a chynaliadwyedd yn cael eu cyflawni drwy gydarncau a ffocws ar y canlynol: gwelliant parhaus trwy ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, hunanwerthuso, arloesedd a'r defnydd o ymarfer seiliedig ar dystiolaeth. Ar lefel unigolyn, mae gwasanaethau'n cael eu

⁵Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cod ymarfer ar Eiriolaeth ar wahân.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/deddf-gwasanaethau--cymdeithasol-a-llesiant-cymru-2014-cod-ymarfer-rhan-10-eiriolaeth.pdf>

cyd-gynhyrchu yn seiliedig ar berthynas gyfartal rhwng ymarferwyr a phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae llwyddiant yn cael ei fesur trwy gasglu gwybodaeth ynghylch a yw cymorth yn cyflawni'r pethau sy'n bwysig i bobl a sut mae sefydliadau'n sbarduno gwelliant ar lefel poblogaeth ac unigolyn.


Llesiant

4.14 Mae awdurdodau lleol sy'n arfer swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn sicrhau eu bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Ar lefel unigolyn, mae hyn yn cynnwys canfod dymuniadau a theimladau'r person, parchu ei urddas, ystyried ei ddiwylliant, ei gredoau a nodweddion eraill ac adeiladu ar ei amgylchiadau, ei alluoedd, ei rwydweithiau a'i gymunedau. Mae gweithio mewn partneriaeth â phobl i ddatblygu atebion creadigol yn allweddol i wella ansawdd y gofal, sicrhau llesiant ac atal datblygiad anghenion pobl am ofal a chymorth. Rydym yn mesur llwyddiant mewn perthynas â chanlyniadau i bobl yn hytrach na phroses.

5. fframwaith perfformiad a gwella

5.1 Cynlluniwyd y fframwaith perfformiad a gwella i helpu awdurdodau lleol i ddangos tystiolaeth o'u cynnydd yn erbyn y Safonau Ansawdd, ac i lywio penderfyniadau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ac ar lefel corfforaethol a sefydliadol. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn galluogi awdurdodau lleol i ddeall eu perfformiad o ran Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn llywio eu gweithgareddau gwella ansawdd a rhaid ei defnyddio hefyd i hysbysu Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol⁶.

5.2 Mae'r diagram isod yn amlinellu'r fframwaith perfformiad a gwella ac yn dangos sut y mae'n rhaid i holl gydrannau'r fframwaith gyd-fynd â'i gilydd er mwyn cyflawni gwell canlyniadau i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofaluwr sydd angen cymorth.



5.3 Mae'r fframwaith perfformiad a gwella yn cynnwys tair rhan. Y rhain yw:

- Mesur gweithgarwch a pherfformiad
- Deall profiadau a chanlyniadau
- Defnyddio tystiolaeth i lywio gwelliant

⁶ Fel sy'n ofynnol o dan adran 144A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mesur gweithgarwch a pherfformiad

5.4 Mae'n darparu'r cyd-destun y mae awdurdodau lleol yn gweithio ynddo trwy ddarparu gwybodaeth glir a chywir am nifer y bobl sy'n symud drwy'r system gofal cymdeithasol a nodi'r galw ar wasanaethau o ganlyniad i hynny.

5.5 Bydd y data'n cael eu casglu'n flynyddol trwy amrywiaeth o fetrigau a ragnodir yn genedlaethol. Dylai awdurdodau lleol gasglu eu data eu hunain hefyd i adlewyrchu eu blaenoriaethau lleol.

Deall profiad y defnyddiwr a chanlyniadau

5.6 Mae'n darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol am safon profiadau pobl o ofal cymdeithasol, ynghyd ag a ydynt yn cyflawni eu canlyniadau llesiant.

5.7 Bydd y data'n cael eu casglu'n flynyddol trwy amrywiaeth o ddulliau a ragnodir yn genedlaethol. Dylai awdurdodau lleol gasglu eu data eu hunain hefyd, i adlewyrchu eu blaenoriaethau lleol.

Defnyddio tystiolaeth i lywio gwelliant

5.8 Mae tystiolaeth yn galluogi awdurdodau lleol i ddeall y cyd-destun gofal cymdeithasol ehangach a sut y gallant wella eu darpariaeth a'u hymarfer.

5.9 Dylid defnyddio tystiolaeth ar bob lefel yn y system gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod gwelliant yn digwydd ar sail wybodus, yn gyson ac mewn ffordd gynaliadwy. Bydd hyn yn cynnwys:

- **Lefel yr unigolyn** – Ymarferwyr gofal cymdeithasol yn cynnal eu hymchwil eu hunain neu'n defnyddio tystiolaeth fel rhan o gymhwyster proffesiynol neu i lywio eu hymarfer eu hunain.
- **Lefel leol** – Awdurdodau lleol yn defnyddio tystiolaeth i lunio gwasanaethau, i lywio gwelliant ac i ddeall arferion gorau.
- **Lefel ranbarthol** - Byrddau partneriaeth rhanbarthol yn defnyddio'r cod ymarfer hwn i siapio eu gwaith eu hunain, i lywio gwelliant a chomisiynu ac i ddeall sut y mae'n rhaid i ddefnydd data a thystiolaeth arferol ategu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.
- **Lefel Genedlaethol** – Llywodraeth Cymru yn defnyddio tystiolaeth i ddeall effeithiolrwydd polisi cenedlaethol, i lywio datblygiad polisi i'r dyfodol ac i sicrhau bod gwelliant yn cael ei wneud ledled Cymru

6. Llesiant

6.1 Mae'r gofyniad ar i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth gael eu cefnogi i gyflawni'r canlyniadau llesiant sydd bwysicaf iddynt yn rhan annatod o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhaid i awdurdodau lleol ddefnyddio'r fframwaith perfformiad a gwella i gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau llesiant hyn.

6.2 Mae ystyr llesiant wedi'i amlinellu yn Adran 2 o'r Ddeddf, ac mae'n berthnasol i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Yn unol â'r Ddeddf, mae llesiant mewn perthynas â pherson yn golygu llesiant mewn perthynas ag unrhyw un o'r canlynol;

- (a) iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol;
- (b) amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
- (c) addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden;
- (d) perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol;
- (e) cyfraniad a wneir at y gymdeithas;
- (f) sicrhau hawliau a hawlogaethau;
- (g) llesiant cymdeithasol ac economaidd;
- (h) addasrwydd llety preswyl.

O ran plentyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys—

- (a) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol;
- (b) "lles" fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol "welfare" at ddibenion Deddf Plant 1989.

O ran oedolyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys—

- (a) rheolaeth ar fywyd pob dydd;
- (b) cymryd rhan mewn gwaith.

6.3 Mae Adran 5 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i geisio hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r ddyletswydd gyffredinol hon yn berthnasol i bobl a chyrrff sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac asiantaethau statudol eraill.

6.4 Mae Adran 8 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad yn ymwneud â llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'n rhaid i'r datganiad llesiant nodi'r canlyniadau sydd i'w

cyflawni o ran llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, a'r mesuriadau y bydd y gwaith o gyflawni'r canlyniadau hyn yn cael ei fesur yn eu herbyn.

7. Gwelliant Strategol

7.1 Mae'r cod ymarfer hwn yn rhan o ymrwymiad ehangach Llywodraeth Cymru i gefnogi gwelliant strategol ar draws y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r cod hwn yn cysylltu'n benodol â Chod Ymarfer Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol⁷ a swyddogaeth statudol Gofal Cymdeithasol Cymru i ddiogelu, hyrwyddo a chynnal diogelwch a llesiant y cyhoedd yng Nghymru, fel y nodwyd yn Adran 68 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r cod ymarfer hwn yn y cyd-destun ehangach hwn.

⁷ <https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2019-04/190401-code-of-practice-lass-en.pdf>

8. Atebolrwydd

8.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dystiolaeth a gesglir drwy'r cod ymarfer hwn i ddeall yr effaith y mae awdurdodau lleol yn ei chael ar ganlyniadau llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalywyr sydd angen cymorth ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn hwyluso cydweithio rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid i sicrhau bod dystiolaeth a gesglir drwy'r cod ymarfer hwn yn cael ei rhannu yn rheolaidd ac fel mater o drefn, ei deall a'i defnyddio'n effeithiol i lywio gwelliant yn y sector gofal cymdeithasol.

8.2 Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn defnyddio'r dystiolaeth i lywio adolygiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol drwy arolygon statudol a gweithgareddau gwerthuso perfformiad fel y nodwyd yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Deddf Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r cod ymarfer ar gyfer adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol⁸.

8.3 Hefyd, bydd gan Gofal Cymdeithasol Cymru trwy eu rôl statudol i ddiogelu, hyrwyddo a chynnal diogelwch a llesiant y cyhoedd yng Nghymru, fel y nodwyd yn Adran 68 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, rôl allweddol wrth gefnogi ymarferwyr, awdurdodau lleol a'r sector gofal ehangach i ddeall a defnyddio data a thystiolaeth yn effeithiol i sicrhau eu bod yn cyflawni gwelliant yn greadigol ac yn gynaliadwy.

8.4 Rhaid i awdurdodau lleol ddefnyddio'r data a'r dystiolaeth y maent yn eu casglu drwy'r cod ymarfer hwn i lywio cynnwys Adroddiad Blyneddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol⁹ yn ogystal â dealltwriaeth ar lefel corfforaethol ehangach o sut y mae'r sefydliad yn gweithredu ar y cyfan. Bydd cyhoeddi'r wybodaeth hon yn cefnogi tryloywder ac yn helpu pobl i gael mynediad at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall yr effaith y mae gwasanaethau cymdeithasol yn ei chael yn eu hardal leol.

⁸ <https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2019-04/190401-code-of-practice-lass-en.pdf>

⁹ Fel sy'n ofynnol dan o dan adran 144A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

9. Canllawiau Perthnasol

9.1 Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r holl ganllawiau a gyhoeddir mewn perthynas â'r cod ymarfer hwn.